# PECYN O WYBODAETH BELLACH AM AELODAETH Y SHERMAN

## Buddion AELODAETH EFYDD y Sherman:

- Taith Tu ôl i'r Llen i bob aelod newydd
- E-gylchlythyr i aelodau (ddwywaith y flwyddyn).
- Cyfle i ymuno â ni yn flynyddol ar gyfer ein digwyddiad i gefnogwyr a gynhelir gan ein Cyfarwyddwr Artistig ac aelodau o dîm y Sherman.
- Cyfnewid tocynnau am ddim / dim ffi i gyfnewid tocynnau i Aelodau Efydd y Sherman.

## Buddion AELODAETH ARIAN y Sherman:

**Holl fanteision Aelodaeth Efydd y Sherman, ynghyd â:**

- Gwahoddiad i ddigwyddiadau arbennig yn Theatr y Sherman, dan arweiniad artistiaid a chrewyr theatr (ar gael i bob Aelod Arian ac un gwestai).
- Gwasanaeth penodol i archebu tocynnau trwy linell uniongyrchol i'n hadran Codi Arian.
- Cydnabyddiaeth o'ch cefnogaeth ar wefan Theatr y Sherman.

## Buddion AELODAETH AUR y Sherman:

**Holl fuddion Aelodaeth Efydd ac Arian y Sherman, ynghyd â:**

- Tocynnau am ddim i bob Aelod Aur ac un gwestai i dri chynhyrchiad 'Crëwyd yn y Sherman' y flwyddyn, gyda'r opsiwn i fynychu naill ai ar noson â derbyniad diodydd penodol i westeion neu ddyddiad arall o'ch dewis.

## Mae dyddiadau Digwyddiadau Aelodaeth 2025 fel a ganlyn:

***Nos Fawrth 4 Chwefror 2025, 6-8pm***
***Digwyddiad Cefnogwyr Blynyddol***

Cyflwyniad i'n rhaglen sydd ar ddod o gynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman gan ein Cyfarwyddwr Artistig a'n tîm Llenyddol.

***Mehefin 2025 (dyddiad i'w gadarnhau), 12-4pm – Gweithdai Theatr***

Dewch i gael cipolwg ar sut mae theatr yn cael ei chreu trwy ymuno â ni am brynhawn o weithdai ac arddangosiadau dan arweiniad aelodau o dîm y Sherman.

***Hydref 2025 (dyddiad i'w gadarnhau), 10am-12pm – Digwyddiad boreol Cynhyrchiad Crëwyd yn y Sherman***

Dysgwch fwy am gynhyrchiad Crëwyd yn y Sherman Hydref 2025, gyda chyfle i weld yr ymarferion a chwrdd â'r cast a'r tîm creadigol (yn agored i Aelodau Arian ac Aur).

***Nos Lun 24 Chwefror 2025, 6pm***
***Noson Gynhyrchiad Gwadd***

***Housemates*** gan Tim Green (cyd-gynhyrchiad gyda Hijinx) (yn agored i Aelodau Arian ac Aur).

***Nos Fawrth 25 Mawrth 2025, 6pm***
***Noson Gynhyrchiad Gwadd***

***Hot Chicks*** gan Rebecca Jade Hammond (cyd-gynhyrchiad gyda Grand Ambition) (yn agored i Aelodau Arian ac Aur).

***Nos Fawrth 29 Ebrill 2025, 6pm***
***Noson Gynhyrchiad Gwadd***

***The Women of Llanrumney*** gan Azuka Oforka (yn agored i Aelodau Aur).

***Nos Fawrth 7 Mai 2025, 6pm***
***Noson Gynhyrchiad Gwadd***

***Port Talbot Gotta Banksy*** gan Paul Jenkins (cyd-gynhyrchiad gyda Theatr3) (yn agored i Aelodau Arian ac Aur).

***Nos Fawrth 21 Hydref 2025, 6pm***
***Noson Gynhyrchiad Gwadd***

***I'w gadarnhau*** (yn agored i Aelodau Aur).

## Rydym hefyd yn gallu cynnig taith Tu ôl i'r Llen i Aelodau newydd ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Gwener 14 Mawrth 2025 10-11am
- Dydd Sadwrn 10 Mai 2025 10-11am
- Dydd Gwener 11 Gorffennaf 2025 10-11am
- Dydd Sadwrn 13 Medi 2025 10-11am
- Dydd Gwener 7 Tachwedd 2025 10-11am

Os nad ydych wedi cael cyfle i archebu lle ar un o'n teithiau adeiladu ar gyfer aelodau newydd, gallwch anfon e-bost ataf yn uniongyrchol i archebu lle.

Emma Tropman, Pennaeth Codi Arian a Datblygu
emma.tropman@shermantheatre.co.uk